

Amlinelliad o'r Cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae lluniad cymhwyster **Dyfarniad Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol** yn seiliedig ar ystyriaethau pwnc penodol Llywodraeth Cymru¹ a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu²:

- deall y byd o'n hamgylch
- mwynhau'r Gymraeg a gweld gwerth i'r iaith honno y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- defnyddio iaith sy'n gysylltiedig â diddordebau
- datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cymdeithasu ac yn y gweithle
- amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr glywed, gweld a darllen deunydd sy'n gyfoethog ac amrywiol yn yr iaith Gymraeg
- meithrin sgiliau ieithyddol er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

Mae'r cymhwyster hwn, a anelir yn benodol at ddysgwyr sy'n gwneud cynnydd da wrth astudio TGAU Cymraeg Craidd ac sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ar hyd y continwwm Cymraeg, yn eu galluogi i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau dilyn a pherthnasol. Rhaid i'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn y TGAU Cymraeg Craidd, gan gynnwys dealltwriaeth o iaith a gramadeg.

Bydd y cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu³, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
 - ddatblygu eu dealltwriaeth, eu hempoethi a'u gallu i ymateb a chyfryngu'n effeithiol
 - rhyngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth ac adeiladu perthnasoedd
 - profi ac ymateb i amrywiaeth o weithiau llenyddol amrywiol sy'n rhoi mewnwelediad iddyn nhw o ddiwylliant, pobl a hanes Cymru a hefyd y byd ehangach

¹[leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cyflwyniad - Hwb \(gov.wales\)](#)

² [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

³ [leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

- sbarduno eu dychymyg a'u creadigrwydd.

Bydd y cymhwyster Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi egwyddorion dilyniant⁴ drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - adeiladu ar eu sgiliau ieithyddol
 - tyfu mewn ffordd gyfannol o ran sut maen nhw'n deall ac yn gallu gwneud defnydd pwrpasol o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
 - datblygu eu repertoire ieithyddol drwy ddod i ddeall sut mae eu hieithoedd eu hunain yn gweithio
 - addasu a thrin iaith er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol
 - meithrin sgiliau iaith derbyn, dehongli a mynegi
 - trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw'n barod i gyd-destunau newydd gan gynnwys yr agweddau cymdeithasol a diwylliannol ar iaith.
- Cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu ieithoedd⁵ drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig
 - adeiladu ar wybodaeth flaenorol dysgwyr o iaith (ieithoedd) i gefnogi dysgu'r Gymraeg
 - clywed, gweld, a darllen Cymraeg cyfoethog ac amrywiol
 - darparu cyfleoedd addas a digonol i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destun dilys.

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Uned 1: Siarad a Gwranddo

Arholiad drwy fideo-gynadledda
50% o'r cymhwyster
Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC

Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu

Asesiad di-arholiad
50% o'r cymhwyster
Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

Bydd cyfleoedd asesu Uned 1 ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin. Asesir Uned 2 ym mis Mehefin.

Cymhwyster unedol fydd hwn.

⁴ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Egwyddorion cynnydd - Hwb \(Ilyw.Cymru\)](#)

⁵ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(Ilyw.Cymru\)](#)

Gwybodaeth am Unedau

Uned 1 – Siarad a Gwranddo

Pwrpas yr uned hon yw:

- **Galluogi dysgwyr i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus**
- **Cyfathrebu a rhyngweithio â'r arholwr**
- **Defnyddio amrywiaeth o frawddegau, patrymau iaith ac amserau gwahanol y ferf i gyfleu gwybodaeth, mynegi a chyfiawnhau barn**
- **Gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau**
- **Dangos dealltwriaeth o iaith lafar**
- **Deall y brif neges, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau**
- **Defnyddio cywair priodol ac ynganu'n glir**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Rhyngweithio
- Mynegi
- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth
- Cefnogi datblygiad diwylliannol

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy trafodaeth gydag arholwr allanol trwy ddefnyddio fideo-gynadledda a bydd ar gael yng nghyfresi Ionawr a Mehefin. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r arholiad a bydd yn cynnwys lefel uchel o reolaeth. Bydd cyfle i ymgeiswyr i drafod pynciau cyfoes o ddiddordeb personol. Tasg pâr neu grŵp o dri fydd ar gyfer yr uned hon, gyda phob dysgwr yn trafod testun dewisol gyda'r pâr/grŵp o dri. Mae'n debygol y bydd yn 10 munud ar gyfer y pâr ac yn 15 munud ar gyfer y grŵp o dri. Bydd yna 5 munud ychwanegol ar gyfer pob dysgwr er mwyn ymateb i'r arholwr yn uniongyrchol yn dilyn trafodaeth pâr/grŵp o dri.

Uned 2- Darllen ac Ysgrifennu

Pwrpas yr uned hon yw:

- **Galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu a darllen yn annibynnol yn y Gymraeg.**
- **Defnyddio amrywiaeth o batrymau iaith**
- **Defnyddio amserau gwahanol y ferf**
- **Deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau, a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd**
- **Dangos eu bod wedi deall y brif neges, y prif bwyntiau, manylion penodol a gwahanol safbwyntiau mewn amrywiaeth o destunau ysgrifenedig hir a byr, syml a chymhleth, sydd yn defnyddio gwahanol amserau'r ferf**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Dadansoddi
- Rhesymu
- Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth

- Cefnogi datblygiad diwylliannol

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad yn ystod cyfnod asesu mis Mehefin. Bydd yn cael ei osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Bydd y gwaith ymchwil unigol yn asesu dysgwyr ar bwnc o ddiddordeb personol sy'n gysylltiedig â 'Cymraeg a fi'. **Rhaid** cyflwyno'r gwaith yn ddigidol i CBAC.

Bydd yr asesiad yn cynnwys dwy dasg gyda lefel isel o reolaeth. Ni ragwelir y bydd y tasgau'n newid dros gyfnod oes y fanyleb. Awgrymir bod nifer y geiriau rhwng 800 a 1000 o eiriau ar gyfer y ddwy dasg. Bydd gan un dasg ffocws creadigol a bydd gan y dasg arall ffocws ar ymchwil a dadansoddi. Mae gwahanol ffocws y ddwy dasg yn caniatáu i ddysgwyr:

- archwilio gwerth y Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i diwylliant, a'i defnydd mewn cymdeithas, yng nghyd-destun Cymru a thu hwnt
- archwilio natur amrywiol dinasyddiaeth Gymreig a'i diwylliannau, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- ymgysylltu â sefydliadau lleol/cenedlaethol sy'n hyrwyddo/defnyddio'r Gymraeg
- archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau darllen ffeithiol a/neu lenyddol a ffurfiau amrywiol
- ysgrifennu mewn ffordd estynedig
- gysylltu'n briodol â rhannau gwahanol o'r cwricwlwm er mwyn meithrin ac atgyfnerthu sgiliau dwyieithog ac amlieithog y dysgwyr
- datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 50% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad. Bydd CBAC yn ei osod, y ganolfan yn ei farcio a CBAC yn ei gymedroli. Mae hyn yn achosi rhai heriau posibl o ran hydrinedd a bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy gael lefel isel o reolaeth. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn effeithio ar hydrinedd, daethpwyd i'r casgliad bod lefel isel o reolaeth yn briodol yn y cyd-destun hwn er mwyn sicrhau gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo. Yn ôl y gofynion hyn, mae angen i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau o ran darllen amrywiaeth o destunau a chyfryngau, gan ddeall a dehongli eu hystyr a'u neges drwy ddewis cynnwys sy'n berthnasol yn lleol.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Yn yr uned siarad a gwranddo (uned 1), canolbwyntir ar ddefnydd dysgwyr o iaith sy'n gysylltiedig â'u diddordebau ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd ddilys a chywir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Fel y nodwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo, rhaid i'r uned darllen ac ysgrifennu (uned 2) fod yn gysylltiedig â 'Cymraeg a fi'. Yn yr uned hon bydd y ffocws ar y dysgwyr yn meddwl yn greadigol wrth ystyried testun sydd o ddiddordeb personol iddyn nhw. Bydd cyfle hefyd iddyn nhw gymhwyso eu sgiliau cyfannol at ymchwil ac i ddadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Bydd hyn yn cryfhau eu hymwybyddiaeth a'u profiad o ddefnydd bob dydd o'r Gymraeg.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad a fwriadwn ar gyfer yr uned darllen ac ysgrifennu yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad di-arholiad yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau a dros amser. Bydd CBAC yn cymedroli sampl o waith canolfannau fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd.

Credwn y gellir asesu pwrpas a chynnwys yr unedau siarad a gwranddo yn ddilys drwy arholiad. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau'n fodd o'n helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr uned arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - [Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol Cymwysterau Cymru](#) - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i'r **Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol**:

- 1.1. gael ei gynllunio ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n gwneud cynnydd da wrth astudio TGAU Cymraeg Craidd ac sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ar hyd y continwmm Cymraeg
- 1.2. adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed a TGAU Cymraeg Craidd
- 1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
- 1.4. caniatáu i Ddysgwyr ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau adealltwriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg, a defnyddio eu dealltwriaeth gysyniadol o'r rhain i drosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd sy'n cefnogi dilyniant i astudiaeth ôl-16 ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol:

- 2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg
- 2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
- 2.3. darparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i Ddysgwyr ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru a'u hystyried:
 - 2.3.1 cyd-destunau lleol, cenedlaethol, a rhyngwladol
 - 2.3.2 amrywiaeth y cynrychioliadau, safbwyntiau, themâu a chyfraniadau, gan gynnwys pobl o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
 - 2.3.3. addysg cydberthynas a rhywioldeb
 - 2.3.4. addysg hawliau dynol
 - 2.3.5. addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith
- 2.4. darparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i Ddysgwyr ymgysylltu â chynaliadwyedd ac ystyried cynaliadwyedd
- 2.5. bod â gofynion *Cymharol* i gymwysterau Lefel 2 eraill ledled y DU

Amcanion Asesu

- Rhaid i Ddysgwyr sy'n cwblhau'r ddwy Uned ac sy'n bodloni marc trothwy cyfunol ar gyfer llwyddo yn y cymhwyster gael tystysgrif gyda gradd lefel cymhwyster gyffredinol Llwyddiant, Teilyngdod neu Ragoriaeth.
- Ni fydd yn ofynnol i Ddysgwyr basio pob Uned i ennill gradd yn y cymhwyster.

- Rhaid i Ddysgwyr sy'n cwblhau un Uned yn llwyddiannus dderbyn tystysgrif uned gyda gradd Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol** fod yn unedol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r **Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

- 13.1. rhaid i'r uned sy'n ymwneud â darllen ac ysgrifennu ffurfio 50% o'r cymhwyster a rhaid ei hasesu trwy asesiad di-arholiad a osodir gan y corff dyfarnu, a gaiff ei marcio gan y Ganolfan a'i Chymedroli gan y corff dyfarnu
 - 13.1.1. rhaid i'r uned hon asesu Dysgwyr ar bwnc o ddiddordeb personol sy'n gysylltiedig â 'Cymraeg a fi'
 - 13.1.2. rhaid i'r corff dyfarnu ganiatáu ac annog Dysgwyr i greu ac arbed y dystiolaeth ofynnol yn ddigidol
- 13.2. rhaid i'r uned sy'n ymwneud â siarad a gwrando ffurfio 50% o'r cymhwyster a rhaid ei hasesu trwy arholiad allanol sy'n cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
 - 13.2.1. rhaid i'r uned hon ei gwneud yn ofynnol i Ddysgwyr drafod deunydd darllen neu ddeunydd gwyllo, a mynegi barn ystyriol ar bynciau cyfoes o ddiddordeb personol
 - 13.2.2. rhaid i'r uned hon fynnu bod Dysgwr yn cymryd rhan mewn trafodaeth gydag ddigidol ag arholwr allanol trwy ddefnyddio fideo-gynadledda
 - 13.2.3. rhaid i bob asesiad o sgiliau siarad ei gwneud yn ofynnol i Ddysgwyr gyfathrebu a rhyngweithio ar lafar mewn modd digymell
- 13.3. Rhaid i ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu nodi sut mae'r marciau sydd ar gael i bob tasg yn berthnasol i'r cynnwys pwnc
- 13.4. Rhaid i dasgau asesu, deunyddiau asesu neu ddeunyddiau Ysgogi roi cyfle i Ddysgwyr:
 - 13.4.1. Ymateb i gyd-destunau lleol, gan ddewis agweddau penodol o ddiddordeb a phwysigrwydd iddyn nhw
 - 13.4.2. Ymateb i amrywiaeth o bynciau cyfoes, gan gynnwys deunydd sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymdeithas a'r byd ehangach